Ffeithiau Treth

Taflen Weithgaredd Ddilynol

Opsiwn A

Ewch ati i greu taflen wybodaeth neu gyflwyniad.

Esboniwch wahanol elfennau'r system dreth, a rôl CThEF i blant iau, i'w helpu i baratoi ar gyfer y byd gwaith ar ôl iddyn nhw adael yr ysgol.



Pethau i'w cynnwys:

- Diffiniad o dreth.
- Y gwahanol fathau o drethi y mae busnesau ac unigolion yn eu talu.
- Esboniad o rôl CThEF a rhywfaint o'r gwaith y mae'n ei wneud o ran casglu trethi a dosbarthu budd-daliadau.
- Beth sydd angen ei baratoi cyn dechrau gweithio neu ddechrau eich busnes eich hun.

Opsiwn B

Mewn parau, mae gennych y dasg o roi treth newydd o 10% ar eitem neu wasanaeth.

Bydd angen i chi weithio gyda'ch gilydd i ddod o hyd i enw ar gyfer y dreth newydd hon ac esbonio pam rydych chi'n meddwl ei fod yn syniad da a pham y bydd o fudd i'r gymdeithas.

Byddwch yn barod i gyflwyno i grwpiau eraill, gan gyfiawnhau eich rhesymau, a bydd gweddill y dosbarth yn pleidleisio naill ai o blaid neu yn erbyn eich cynnig.

Opsiwn C

Eich tro chi yw hi i benderfynu i ble mae'r arian sy'n cael ei gasglu o drethi'n cael ei wario!

Rhowch y ddeng maes allweddol mewn trefn, drwy benderfynu pa rai y byddech yn gwario'r mwyaf o arian arnyn nhw a pha rai y byddech yn gwario'r lleiaf arnyn nhw.

10 maes allweddol

- Addysg.
- Tai.
- Iechyd.
- Amddiffyn.
- Lles.
- Trafnidiaeth.
- Cymorth tramor.
- Taliadau pensiwn.
- Ymchwil a datblygu.
- Talu llog ar ddyled genedlaethol y DU.

1 = Byddwn yn gwario'r **mwyaf o arian** ar y maes hwn.

10 = Byddwn yn gwario'r **lleiaf o arian** yn y maes hwn.

Ysgrifennwch baragraff sy'n esbonio'ch penderfyniad.

Cwestiwn ymestynnol: Pa wasanaethau cyhoeddus y byddech yn fodlon eu hildio pe baech yn gallu talu llai o dreth a beth fyddai effaith hyn?